

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 2 Medi 2021

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Rheoli Datblygu trwy We-Ddarlledu o Bell ar ddydd Mercher am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Materion Personol
3. Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu
4. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Awst 2021 (Tudalennau 3 - 6)
5. Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor (Tudalennau 7 - 16)
6. Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu (Tudalennau 17 - 26)
7. Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig (Tudalennau 27 - 32)
8. Apeliadau (Tudalennau 33 - 44)
9. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Pwyllgor

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu

Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Yn bresennol: y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Bryan Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Ifan Davies, Paul Hinge, Peter Davies MBE, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion yn bresennol: Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio, Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau.

(10:00am –12:10pm)

1. **Personol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Estynnwyd cydymdeimlad â'r Cynghorydd Catherine Hughes a'i theulu yn sgil marwolaeth ei thad.

2. **Ymddiheuriadau**

Roedd y Cynghorydd Ceredig Davies wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddo ddod i'r cyfarfod.

3. **Datgan buddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu**

Dim.

4. **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021 yn gywir.

Materion yn codi

Dim.

5. **Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**

Dim.

6. **Ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol**

Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Robert Taylor (Ymgeisydd) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

Tudalen 4

A201081 Cynnig i godi annedd fforddiadwy, gan gynnwys gosod gwaith bach i drin carthion, Tir wrth ymyl College Farm, Bethania, Llannon

GOHIRIO'R penderfyniad ar y cais i ganiatáu mwy o amser i gael mwy o wybodaeth a 'chyfnod callio' er mwyn:

- ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau,
- gofyn am fwy o wybodaeth gan y Gwasanaeth Priffyrdd,
- gofyn am fwy o wybodaeth gan yr Ymgeisydd,
- ystyried arwyddocâd y gwyriad,
- ystyried y risgiau cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, gan gynnwys y cynnig newydd o ran priffyrdd,
- a ellir ystyried yr annedd o dan y canllawiau Un Blaned.
- Roedd amwysedd yn y cynnig

Rheswm:

Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael mwy o gyngor am arwyddocâd y gwyriad a'r risgiau cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Alun Charles (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A210084 Cais cynllunio ôl-weithredol i gael caniatâd ar gyfer llety gwyliau mewn caban sydd wedi'i leoli ar dir Porth Elenydd, Pontarfynach, Porth Elenydd, Pontarfynach, Aberystwyth

CYMERADWYO'R cais yn ddibynnol ar amodau.

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Alex Smith (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A210291 Codi tair annedd fforddiadwy, gan gynnwys mynediad, parcio, tirweddu a gwaith atodol, Tir wrth ymyl Maescrug, Pantycrug, Capel Seion, Aberystwyth

CYMERADWYO'R cais yn ddibynnol ar gytundeb Adran 106 ar gyfer y tai fforddiadwy ac ar yr amod bod y gostyngiad yn y pris gwerthu'n parhau i fod yn 30%. Os nad yw'r ymgeisydd yn cytuno, caniateir i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio WRTHOD y cais.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y swyddogion ac roeddent yn tybio bod modd cymeradwyo'r cais am y rhesymau a ganlyn:-

- Cafodd egwyddor y datblygiad ei sefydlu eisoes drwy gymeradwyo'r cais cynllunio blaenorol ar y safle, felly roedd yr annedd fforddiadwy ychwanegol i'w chroesawu ac roedd yn bosibl y gallai'r datblygwr gael adenillion ariannol mwy ffafriol ar y datblygiad pe câi tair annedd fforddiadwy eu cymeradwyo;
- Roedd gan yr ymgeisydd restr o brynwyr posibl ar gyfer y tai fforddiadwy hyn, ac roedd hyn yn dangos bod galw amdanynt;

Tudalen 5

- O gymeradwyo'r cais hwn, byddai'n cynorthwyo'r Cyngor i gyrraedd ei darged o ran nifer y tai fforddiadwy yn y sir;
- Roedd angen tai fforddiadwy ar fyrder ac roedd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS, wedi tynnu sylw at hyn yn ddiweddar;
- Roedd angen tai fforddiadwy yn y lleoliad hwn oherwydd nad oedd unrhyw ddatblygiadau yn y dref gyfagos;
- Dywedodd yr Aelodau nad oeddent yn derbyn gostyngiad o 15% yn y gostyngiad ym mhris gwerthu'r anheddau hyn gan fod pob datblygiad arall â thai fforddiadwy wedi cytuno i ffigur o 30%. O gymeradwyo'r cais hwn, byddai'n gosod cynsail na fyddai'n hyfyw;
- Byddai gostyngiad o 15% yn mynd yn groes i'r polisi;
- Roedd yr Aelodau'n cefnogi cymeradwyo un annedd fforddiadwy ychwanegol oherwydd nad oeddent am weld sefyllfa lle na chât'r ddwy annedd fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt eisoes eu codi.

7. **Ceisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-**

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu ddiweddariad i'r Aelodau am berfformiad y gwasanaeth ers y chwarter diwethaf. Bu i'r Aelodau longyfarch y gwasanaeth ar yr hyn a gyflawnwyd ganddo yn wyneb lefelau staffio annigonol.

8. **Apeliadau cynllunio**

CYTUNWYD i nodi'r penderfyniad apêl a oedd wedi dod i law.

9. **Unrhyw fater arall**

Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 08 Medi 2021

Cadeirydd:- _____


Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

1. Gohiriwyd/Deferred

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A201050	09-12-2020	Wil & Annie Davey	Erection of a dwelling to include installation of vehicular access and treatment plant	Land Adjacent To Awel Y Mynydd, Pïsgah, Aberystwyth, SY23 4NE	Refuse

1.1. A201050



Tudalen 9

Rhif y Cais:	A201050
Daeth i law:	09-12-2020
Y Bwriad:	Codi annedd gan gynnwys creu mynediad i gerbydau a gosod cyfleuster trin carthion
Lleoliad y Safle:	Tir wrth ochr Awel y Mynydd, Pïsgah, Aberystwyth, SY23 4NE
Math o Gais:	Cynllunio Llawn
Ymgeisydd:	Wil ac Annie Davey, Nythfa, Pantycrug, Capel Seion, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4EF
Asiant:	Mr Gareth Flynn (Morgan & Flynn Architectural Services), Tan y Dderwen, Llanrhystud, Ceredigion, SY23 5ED

Y SAFLE A'I HANES PERTHNASOL

Darn o dir rhwng dau eiddo preswyl yw safle'r cais, ym mhentref bach gwledig Pïsgah. Defnyddir y safle at ddefnydd amaethyddol. Mae ffordd sirol yr A4120 yn ffinio â'r safle tua'r gogledd. I'r de mae rhagor o gaeau amaethyddol.

Mae'r safle mewn lleoliad amlwg uwchben Dyffryn Rheidol.

Hanes Perthnasol o ran Cynllunio

A010478 – Caniatâd amlinellol i godi tri thŷ – Gwrthodwyd 15/07/2021

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais sydd o dan sylw yn gofyn am ganiatâd llawn i godi annedd ar y farchnad agored.

Bydd yr annedd arfaethedig yn dŷ ffrÿnt-dwbl gyda phortsh gwydr amlwg a bydd y tŷ yn sefyll ar ganol y llain o dir. Bydd mynediad yn uniongyrchol o ffordd sirol yr A4120 rhwng Aberystwyth a Phontarfynach a bydd hwn yn arwain at le parcio a man troi ar gyfer tri char.

Mae'r deunyddiau allanol yn cynnwys rendr llyfn wedi'i baentio, cerrig naturiol, plinth o frics glas Swydd Stafford ar gyfer y waliau, ac uwch ei ben to llechi naturiol Sbaenaidd Iberaidd. Rhoddir gorffeniad UPVC llwyd anthracite i'r gwaith coed.

Bydd yr eiddo'n mesur tua 18.1m (ar y mwyaf) o led a 10.2m (ar y mwyaf) o ddyfnder. Bydd crib y to tua 9m o uchder.

Y tu mewn, ar y llawr gwaelod bydd yr eiddo arfaethedig yn cynnwys cyntedd, ystafell fyw, ystafell chwarae, cegin cynllun agored, ystafell deuluol, ystafell iwtiliti a thoiled. Ar y llawr cyntaf bydd pedair ystafell wely, landin ar ffurf oriel ac ystafell ymolchi, gan gynnwys prif ystafell wely gyda wardrob y gellir cerdded i mewn iddo ac ystafell ymolchi en-suite.

Y tu allan, bydd yr ardd arfaethedig yn cynnwys lawnt yn bennaf a bydd perthi o rywogaethau cymysg yn cael eu plannu ar ffin ddeheuol y safle.

Y bwriad yw gosod cyfleuster trin carthion i waredu â dŵr brwnt cyn ei ryddhau i suddfan.

POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisiau Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 11)

TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy

TAN 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (mabwysiadwyd 25 Ebrill, 2013)

S01 Twf Cynaliadwy

S04 Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill

S05 Tai Fforddiadwy

Tudalen 10

DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg

DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel

DM10 Dylunio a Thirweddu

DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol

DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd

Canllawiau Cynllunio Atodol

Tai Fforddiadwy

Safonau Parcio

Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio

Cadwraeth Natur

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol y swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn o fewn ei ardal, ac i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- gwaredu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n perthyn i grwpiau gwarchoddedig pan fydd yr anghenion hyn yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhodddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth roi'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

YMATEBION YN SGIL YMGYNGHORI

Adran Briffyrdd Ceredigion – Dim gwrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau

Draenio Tir Cyngor Sir Ceredigion – Dim gwrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau

Ecoleg Cyngor Sir Ceredigion – Ni chafwyd sylw

Cyfoeth Naturiol Cymru – Dim gwrthwynebiad

Dŵr Cymru – Dim gwrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau

Tudalen 11

Daeth dau sylw i law oddi wrth drydydd partïon parthed y cais. Ers hynny, tynnodd trigolion yr eiddo cyfagos wrthwynebiad i'r cynnig yn ôl. Daeth sylw arall i law o blaid y cais.

CASGLIAD

Dywed Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004:

“Os rhoddir ystyriaeth i'r cynllun datblygu er mwyn gwneud penderfyniad o dan y Deddfau Cynllunio, bydd yn rhaid i'r penderfyniad hwnnw fod yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.”

Egwyddor y Datblygiad

Dynodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion fod safle'r cais mewn 'lleoliad arall' neu gefn gwlad agored. Felly y prif bolisi sy'n berthnasol wrth ystyried y cais yw polisi S04 o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion sy'n ymdrin â chynigion i ddatblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'.

Er bod polisi S04 yn cydnabod yr angen am rywfaint o ddatblygu mewn lleoliadau eraill, i ddiwallu anghenion y cymunedau presennol, mae'r polisi'n ceisio sicrhau rheolaeth rhag i ddatblygu ddigwydd yn helaeth mewn lleoliadau anghynnaladwy. Mae'r polisi felly'n caniatáu datblygiad newydd dim ond pan fo modd cyfiawnhau'r angen am fenter wledig yn unol â TAN 6 neu os yw'n angenrheidiol i ddiwallu angen am dai fforddiadwy yn unol ag S05. O ran tai fforddiadwy, caniateir datblygu mewn lleoliadau eraill dim ond pan fyddant o fewn aneddiadau presennol neu'n union gyfagos iddynt, yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol.

Ni hawlr bod angen y cais hwn at ddibenion TAN 6.

Mae'r cais hwn yn cynnig codi annedd marchnad agored, ond yn ystod y broses benderfynu nododd yr ymgeiswyr y byddent yn fodlon ystyried dynodi'r annedd yn 'annedd fforddiadwy' a sicrhau am byth drwy gytundeb cyfreithiol o dan adran 106. Fel y trafodwyd, mae polisi S04 yn caniatáu ar gyfer tai fforddiadwy mewn 'lleoliadau eraill' lle gellir dangos bod angen am dai fforddiadwy yn yr ardal ac nad yw'r angen yn cael ei ddiwallu.

Wrth ystyried cynigion ar gyfer tai fforddiadwy, dywed Atodiad 4 y Cynllun Datblygu Lleol y dylid sicrhau nad yw tai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yn ôl safonau annerbyniol o isel ac na ddylid chwaith greu datblygiadau tai sy'n 'rhy fawr neu sylweddol'. Mae Canllawiau Atodol Tai Fforddiadwy Ceredigion yn rhoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar waith drwy weithredu manylion gofynnol o ran arwynebedd y llawr o fewn tai fforddiadwy. Daw'r rhain o Ofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru. Caniateir hyd at 20% yn uwch na'r mesuriadau lleiaf posib ar gyfer llawr mewnol cyfan. Yr arwynebedd llawr lleiaf posib yn y Gofynion ar gyfer tŷ fforddiadwy pedair ystafell wely yw 114m². Yr uchafswm a ganiateir felly yng Ngheredigion yw 136m², sef 20% yn uwch na ffigwr y Gofynion Ansawdd Datblygu.

Ar sail cynlluniau'r lloiau a ddarparwyd, byddai gan yr annedd arfaethedig arwynebedd llawr o 275m² - llawer yn uwch na'r ffigwr a ganiateir yng Ngheredigion. Mae'r ymgeisydd wedi dweud y byddai'n amharod i leihau'r maint i gydymffurfio â'r polisi. Felly, yn sgil maint yr eiddo, ystyrir y byddai'r eiddo y tu hwnt i gyrraedd cyfran fawr o'r gymdeithas, hyd yn oed gyda chytundeb adran 106 ynghlwm.

Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau felly ei fod yn dymuno i'r cais gael ei ystyried ar sail deiliadaeth marchnad agored. Ni roddwyd cyfiawnhad felly o ran sut y byddai'r cais hwn yn diwallu'r angen am dai fforddiadwy yn lleol.

Tirwedd

Ni ddynodir bod safle'r cais o fewn Ardal Tirwedd Arbennig at ddibenion y Cynllun Datblygu Lleol. Serch hynny, yn rhinwedd lleoliad yr eiddo arfaethedig ar esgair Dyffryn Rheidol, a'i faint, a'i liw gwyn, byddai'n nodwedd amlwg ar y tirwedd wrth edrych o Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Rheidol.

Priffyrdd

Roedd Awdurdod Priffyrdd Lleol Ceredigion wedi mynegi anfodlonrwydd â'r cais fel y'i cyflwynwyd am nad oedd modd cyflawni'r llain weledded ofynnol ar dir oedd yn eiddo i'r ymgeisydd. Mae'r ymgeisydd wedi darparu copïau o gytundeb ysgrifenedig gyda'r tai cyfagos i gynnal a chadw'r tir er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r llain weledded ofynnol. Mae'r Awdurdod Priffyrdd Lleol yn fodlon â'r trefniant hwn ac nid oes ganddynt wrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau.

Ecoleg a Draenio Tir

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon ar ganfyddiadau'r arfarniad ecolegol a gyflwynwyd i gefnogi'r cais. Canfu'r arfarniad nad yw'r safle o fawr o werth ecolegol. Mae'r adran Draenio Tir yn fodlon ar y dull a gynigir o ddraenio dŵr wyneb, yn ddibynnol ar amod.

Materion Eraill

Tudalen 12

Mae Dŵr Cymru yn tynnu sylw'r ymgeisydd at y ffaith bod prif bibell ddŵr o fewn ffiniau'r safle. Mae Dŵr Cymru yn cynnig bod amodau i sicrhau fod y bibell yn cael ei diogelu a bod modd cael mynediad ati.

DIRPRWYO PWERAU

Mae'r Cynghorydd Rhodri Davies wedi gofyn am i'r cais gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio a hynny am y rhesymau canlynol:

Darparu cartref ar gyfer bobl leol.

Byddai annedd fach yn ymddangos yn anghydnaws â'r tai mwy o faint sydd gerllaw safle'r cais.

RHESWM AM OHIRIO

Yn Mhwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021, penderfynodd y pwyllgor gohirio penderfynu y cais i ganiatáu amser i'r ymgeisydd drafod gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a fyddent yn ystyried newid y cais i gais am annedd fforddiadwy neu annedd TAN 6, gan roi pwerau awdurdodi i'r Prif Swyddog Corfforaethol ar gyfer yr Economi ac Adfywio i gymeradwyo cais diwygiedig boddhaol yn ddibynnol ar amodau a chytundeb cyfreithiol S106. Os nad oedd cytundeb rhwng yr Awdurdod a'r ymgeisydd, yna gofynnwyd i'r cais cael ei adrodd yn ôl i Bwyllgor er mwyn ei ystyried ymhellach.

Ni ystyrir y byddai'r ymgeisydd yn gymwys i feddiannu annedd TAN6 gan nad yw ei broffesiwn yn fusnes sy'n gysylltiedig â thir.

Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cadarnhau nad yw'n dymuno adolygu'r cynnig i newid yr annedd i fod yn annedd fforddiadwy fel gofynnodd y Pwyllgor, gan ei fod yn anfodlon lleihau maint yr annedd o 275 metr sgwâr i lai na 200 metr sgwâr fel y gwnaethom ofyn ac yn ei farn ef byddai'n cael ei atal rhag rhedeg busnes o'r annedd trwy gytundeb S106.

ARGYMHELLIAD

Felly mae awgrymiad swyddogion yn dal i sefyll ac awgrymir **GWRTHOD** y cais am ei fod yn groes i bolisiâu S01, S04 ac S05 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (a fabwysiadwyd yn 2013).

Tudalen 13

Rhif y Cais:	A201050
Daeth i law:	09-12-2020
Y Bwriad:	Erection of a dwelling to include installation of vehicular access and treatment plant
Lleoliad y Safle:	Tir wrth ochr Awel y Mynydd, Pisgah, Aberystwyth, SY23 4NE
Math o Gais:	Cynllunio Llawn
Ymgeisydd:	Wil ac Annie Davey, Nythfa, Pantycrug, Capel Seion, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4EF
Asiant:	Mr Gareth Flynn (Morgan & Flynn Architectural Services), Tan y Dderwen, Llanrhystud, Ceredigion, SY23 5ED

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site is an area of land between two residential properties in the rural settlement of Pisgah. The site is in agricultural use. The A4120 county road bounds the site to the north. To the south are further agricultural fields.

The site occupies a prominent location on the upper reaches of the Rheidol Valley.

Relevant Planning History

A010478 – Outline Permission for the erection of three houses – Refused 15/07/2021

DETAILS OF DEVELOPMENT

The application under consideration seeks full planning permission for the erection of an open market dwelling.

The proposed dwelling is to be a double fronted residence with a prominent glazed porch feature which will be sat centrally within the plot. Access is to be taken directly from the A4120 county road between Aberystwyth and Devils Bridge which will lead to a parking and turning area for 3 cars.

External materials include smooth painted render, natural stonework and Staffordshire blue brick plinth for the walls under a Spanish Iberian natural slate roof. Joinery is to be finished in anthracite grey UPVC.

The property will measure approximately 18.1m (maximum) wide by 10.2m (maximum) deep. The property will be approximately 9m in height to the ridge.

Internally the proposed property is to include entrance hall, living room, play room, open plan kitchen, living family room, utility room and W.C on the ground floor, and 4 bedrooms, galleried landing and bathroom on the first floor, including a master bedroom with walk in wardrobe, and en-suite bathroom.

Externally the proposed garden area will be mainly laid to lawn, with mixed species hedgerow to be planted to the sites southern boundary.

A package treatment plant is proposed to dispose of foul drainage water before discharging into a soakaway.

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

National Planning Policy and Guidance

Future Wales: The National Plan 2040

Planning Policy Wales (Version 11).

TAN 2 Planning and Affordable Housing

TAN 6 Planning for Sustainable Rural Communities

Ceredigion Local Development Plan 2007-2022 (Adopted 25th April, 2013)

S01 Sustainable Growth

S04 Development in Linked Settlements and Other Locations

Tudalen 14

S05 Affordable Housing

DM01 Managing the Impacts of Development on Communities and the Welsh Language

DM06 High Quality Design and Placemaking

DM10 Design and Landscaping

DM15 Local Biodiversity Conservation

DM17 General Landscape

DM20 Protection of Trees, Hedgerows and Woodlands

Supplementary Planning Guidance

SPG Affordable Housing

SPG Parking Standards

SPG Built Environment and Design

SPG Nature Conservation

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

Ceredigion Highways No objection subject to condition

Ceredigion Land Drainage – No objection subject to condition

Ceredigion Ecology – Did not comment

Natural Resources Wales – No objection

Welsh Water – No objection subject to condition

Tudalen 15

2 Third party representations have been received in respect of the application. One representation objecting to the proposal has since been withdrawn by the residents of the neighbouring property. A representation in support of the application has also been made.

CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that:

“If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise”.

The Principle of Development

The application site is identified in the Ceredigion Local Development Plan as being an ‘other location’ or open countryside. As such the main policy of relevance in considering the application is policy S04 of the Ceredigion Local Development Plan which deals with development proposals in ‘Linked Settlements and Other Locations’.

While policy S04 recognises the need for a degree of development within other locations to meet the needs of existing communities, the policy seeks to ensure the control of the proliferation of development in unsustainable locations. The policy therefore allows new development only where there is a justifiable rural enterprise need in accordance with TAN6 or is required to meet an unmet affordable housing need in line with S05. In terms of affordable housing, development in other locations will only be permitted when located within or immediately adjacent to existing settlements in line with national planning policy.

No claim is made that the proposal is required for TAN6 purposes.

The proposal is for the erection of an open market dwelling, however during the determination process the applicants indicated that they were willing to give consideration to the dwelling being designated an ‘affordable dwelling’ secured in perpetuity via a S106 legal agreement. As discussed, policy S04 does allow for affordable housing in ‘other locations’ where it can be demonstrated that there is an unmet affordable housing need in the locality.

In considering proposals for affordable housing, the LDP draws attention to the need to ensure that affordable homes are not built to unacceptably low standards or to create ‘overly large or substantial housing’ at Appendix 4. The Ceredigion Affordable Housing Supplementary Guidance gives effect to the LDP by applying minimum internal floor space specifications for affordable homes taken from the Welsh Government’s Development Quality Requirements (DQR) standard: and a maximum of a 20% increase on the minimum specifications in overall internal floor space. The minimum floor area within the DQR standard for an affordable 4 bedroom house is 114m². The maximum therefore allowed within Ceredigion is 136m² which is 20% above the DQR figure.

From the floor plans provided, the proposed dwelling would have a floor area of approximately 275m², significantly above the figure allowed within Ceredigion. The applicant has indicated that they would be unamenable to the required reduction in size to conform with policy. It is therefore considered that by virtue of its size the property would be unaffordable for a large section of society even with a S106 agreement attached.

The applicant has therefore confirmed that they wish for the application to be considered on the basis of an open market tenure. No justification has therefore been provided as to how the proposal will meet an unmet affordable housing need in the locality.

Landscape

The application site is not identified as being within a designated Special Landscape Area for the purposes of the LDP. Nevertheless the proposed property by virtue of its siting on the upper edges of the Rheidol Valley, its large size and white colouring would make it a prominent feature on the landscape when viewed from within the Rheidol Valley Special Landscape Area.

Highways

Ceredigion Local Highways Authority took issue with the application as submitted as the required visibility splays could not be achieved within the applicants land ownership. The applicant has provided copies of written agreement with neighbouring properties to maintain land in order to ensure the required visibility splays can be met. The LHA are content with this arrangement, and have no objection subject to conditions.

Ecology and Land Drainage

NRW are content with the findings of the ecological appraisal submitted in support of the application, which found the site to be of low ecological value. Land drainage are content with the proposed means of surface water drainage subject to

Tudalen 16

condition.

Other Matters

Welsh Water draw the applicant's attention to the presence of a water main within the site boundary. Welsh Water propose conditions to ensure the pipe is protected and access can be maintained.

DELEGATED POWERS

Rhodri Davies has confirmed his desire for the application to be referred to the development control committee for the following reasons.

Providing a home for local people

A smaller dwelling would appear at odds with the larger dwellings neighbouring the proposal.

REASON FOR DEFERRAL

At the Development Control Committee held on the 23rd of June 2021, the Committee resolved to defer determination of the application for negotiations between the Authority and the applicant as to whether the applicants would consider amending the application to an affordable or TAN 6 dwelling, with the Corporate Lead Officer for Economy and Regeneration being authorised to APPROVE an amended satisfactory scheme subject to conditions and a Section 106 legal agreement. The application was to be reported back to Committee for reconsideration should no agreement be reached on the proposal.

It is not considered that the applicant would qualify to occupy a TAN6 dwelling as his profession does not constitute a land related business.

The applicant has also confirmed that they do not wish to revise the proposal to designate the property as an affordable home as requested by Committee, as they are unwilling to reduce the size of the property from 275sqm to below 200sqm, and would be prevented, in their opinion, from running a business from the property by the S106 agreement.

RECOMMENDATION

The recommendation of officers therefore remains to **REFUSE** the application as being contrary to policies S01, S04, S05 of the Ceredigion Local Development Plan 2007 -2022 (adopted 2013).

2. Prif Eitemau/Main Items

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A210522	25-05-2021	Mr and Mrs M & S Jones	Proposed erection of a single new dwelling.	Land North Of Ty Blaencwm Brynhoffnant, Llandysul, Ceredigion, SA44 6ED	Refuse

2.1. A210522



Tudalen 19

Rhif y Cais / Application Reference	A210522
Derbyniwyd / Received	25-05-2021
Y Bwriad / Proposal	Codi un annedd newydd arfaethedig / Proposed erection of a single new dwelling.
Lleoliad Safle / Site Location	Tir i'r Gogledd o Dy Blaencwm, Brynhoffnant, Llandysul, Ceredigion SA44 6ED
Math o Gais / Application Type	Land North Of Ty Blaencwm Brynhoffnant, Llandysul, Ceredigion, SA44 6ED Caniatâd Cynllunio Amlinellol – gyda'r holl faterion/rhai materion wedi eu cadw yn ôl Outline Planning Permission - All/Some Matters Reserved
Ymgeisydd / Applicant	Mr and Mrs M & S Jones, Flat, Hoffnant Garage, Brynhoffnant, Llandysul, Ceredigion, SA44 6ED
Asiant / Agent	Mr M Edwards (Castle Arch. Designs Ltd), Bank House, 9 Bridge Street, Newcastle Emlyn , Newcastle Emlyn , SA38 9DX

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Lleolir Brynhoffnant yn Ne Ceredigion ar gyffordd bum-ffordd ar gefnffordd yr A487, y B4334 ac is-ffordd 16km (10 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Aberteifi).

Mae'r anheddiad yn cynnwys rhyw 45-50 o anheddau. Mae'r cyfleusterau yn y pentref yn cynnwys archfarchnad fechan/gorsaf betrol, Capel, Ysgol Gynradd ardal a thafarn a bragdy. Mae'r anheddiad hefyd ar lwybr bysiau o Aberystwyth i Aberteifi y darperir y gwasanaeth arno bob dydd.

Lleolir y safle i'r Gogledd o'r anheddiad ar hyd y ffordd sy'n arwain i Langrannog. Rhoddwyd caniatâd i godi pedair annedd (2 fforddiadwy a 2 marchnad agored) yma yn 2019 ac mae'r safle arfaethedig yn gorwedd y tu draw i'r olaf o'r anheddau marchnad agored. Mae'r safle'n gymharol wastad a cheir clawdd ar y blaen.

Bydd gan y safle ei fynediad ei hun i gerbydau. Nid oes hanes cynllunio blaenorol yn perthyn i'r safle.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Ceisir caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer un annedd farchnad agored a'r holl faterion wedi eu cadw yn ôl.

Bwriad yr ymgeiswyr yw codi annedd bedair ystafell wely ar y tir gerllaw'r datblygiad ar gyfer pedair annedd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo yn ddiweddar. Mae'r gwaith wedi dechrau ar y safle hwn ac mae'r pedair annedd wedi eu gwerthu. Nodir y terfynau isaf ac uchaf fel a ganlyn:

- Hyd/Dyfnnder ar hyd yr Ochr Fer - Isafswm o 8m - Uchafswm o 12m.
- Lled ar hyd y Darn Blaen - Isafswm o 10m - Uchafswm o 18m.
- Uchder o'r ddaear hyd at grib y to - Uchafswm o 9.5m.

Ni fyddai maint yr eiddo yn cael ei bennu hyd nes cyrraedd cam y materion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r mesuriadau mwyaf ar gyfer eiddo deulawr, gallai arwyneb y llawr ymestyn i fwy na 400 metr sgwâr.

Mae'r cynllun dangosol yn gosod yr annedd ar ganol y llain o dir, gyda man parcio a throi ar y blaen a man amwynder o gwmpas.

POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

POLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11

TAN12 - Dylunio (2016)

TAN5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)

TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

POLISIÂU Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

Mae'r polisiâu a ganlyn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn:

Tudalen 20

DM03 Teithio Cynaliadwy

DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol

DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio

DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel

DM10 Dylunio a Thirwedd

DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy

DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol

DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol

DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

S01 Twf Cynaliadwy

S04: Datblygu Mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'

S05 Tai Fforddiadwy

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hynny ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gall, yn rhesymol, i atal troseddau ac anhrefn. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd hon wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd mawr neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dynodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig' sef oedran; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r uchod wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt yn fwy nag ar unrhyw un arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

